------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Comisiwn y Cynulliad

**Lleoliad:**
**Presiding Officer's office, 4th floor - Tŷ Hywel**

**Dyddiad:**
**Dydd Llun, 7 Gorffennaf 2014**

**Amser:**
**14.00 - 15:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch a:**

**Carys Evans, 02920 89 8598**
**Ysgrifenyddiaeth**

## Agenda
AC(4)2014(10)

### 1 Cyflwyniad y Cadeirydd

**Cyflwyniad ac ymddiheuriadau**

**Datganiadau o fuddiant**

**Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol** **(Tudalennau 1 - 3)**

### 2 Cyllideb ddrafft 2015-16
***papur 2***

### 3 Gwneud y gorau o ystâd y Cynulliad
***papur 3***

### 4 Adroddiad ar y Prif Bwyntiau (Tudalennau 4 - 31)
***papur 4***

### 5 Y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg y wybodaeth ddiweddaraf o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Gorffennaf
***llafar***

### 6 Adroddiad blynyddol ACARAC

*papur 5*

## 7 Papur i'w nodi - Y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Mehefin 2014

*papur 6*

## 8 Unrhyw Fusnes Arall

# Comisiwn y Cynulliad

| | |
|---|---|
| **Lleoliad:** | **Conference Room 4B - Tŷ Hywel** |
| **Dyddiad:** | **Dydd Iau, 26 Mehefin 2014** |
| **Amser:** | **12.30 - 14.00** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cofnodion: AC(4)2014(9)

| | |
|---|---|
| **Yn bresennol:** | **Y Fonesig Rosemary Butler AC (Cadeirydd)**<br>**Peter Black AC**<br>**Sandy Mewies AC**<br>**Rhodri Glyn Thomas AC** |
| **Swyddogion yn bresennol:** | **Claire Clancy, Y Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad (Swyddog)**<br>**Dave Tosh, Cyfarwyddwr Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (Swyddog)**<br>**Craig Stephenson, Prif Gynghorydd y Llywydd (Swyddog)**<br>**Mike Snook, Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Swyddog)**<br>**Nerys Evans, Commission Member (Swyddog)**<br>**Neil Bradley, Assembly Sustainability Co-ordinator (Swyddog)**<br>**Carys Evans, Prif Ysgrifennydd y Comisiwn (Swyddog)** |
| **Eraill yn bresennol:** | **Mair Barnes, Cynghorwr Annibynnol**<br>**Steven Burrows, Arup**<br>**Alan Jones, Arup**<br>**Lee Evans, Yr Ymddiriedolaeth Garbon** |

## 1 Cyflwyniad y Cadeirydd

### 1.1 Cyflwyniad ac ymddiheuriadau

**Roedd Angela Burns AC a David Melding AC wedi anfon eu hymddiheuriadau.**

1.2 **Datganiadau o fuddiant**

**Ni chafwyd datganiadau o fuddiant.**

1.3 **Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol**

**Cytunwyd ar gofnodion cyfarfod 18 Mehefin.**

## 2 Adborth ar yr Ymgynghoriad ar TGCh yn y Siambr

**Mae'r cyfleusterau TGCh sydd ar gael i'r Aelodau yn y Siambr wedi bod ar waith ers agor y Senedd. Byddai angen diweddaru llawer o'r cyfleusterau yn y Siambr dros y ddwy flynedd nesaf. Roedd strategaeth TGCh y Comisiwn yn cynnig ystod o gyfleoedd newydd i ddarparu amgylchedd gweithio gwell i'r Aelodau, gan sicrhau ar yr un pryd y gellir cyflwyno arferion arloesol.**
**Roedd yr Aelodau wedi cael cais yn ddiweddar i roi adborth ar yr opsiynau canlynol:**

- **Cadw'r offer TGCh Sefydlog**
- **Offer TGCh symudol a Gweithfan Hyblyg**
- **Sgrin Gyffwrdd ar gyfer y Cyfarfod Llawn yn Unig**

**Nododd yr arolwg y byddai'n well gan y rhan fwyaf o'r ymatebwyr weld datrysiad symudol yn cael ei gyflwyno. Fodd bynnag, roedd yna hefyd ddiddordeb sylweddol mewn cadw rhyw fath o ddesg sefydlog. Roedd rhai wedi nodi y dylid cael hyblygrwydd gan nad yw pob defnyddiwr yn dymuno mabwysiadu'r un ffyrdd o weithio. Byddai angen rhoi ystyriaeth i wneud y defnydd gorau o'r gofod desg sydd ar gael i'r Aelodau yn y Siambr hefyd.**
**Yn seiliedig ar y safbwyntiau hyn byddai'r adran TGCh yn ymchwilio i'r opsiynau sydd ar gael cyn dod â'r cynigion yn ôl i'r Comisiwn ar ôl toriad yr haf. .**
**Fel y cytunwyd eisoes, byddai'r newidiadau'n cael eu gwneud yn raddol ac yn gyflym fel y gellid gwireddu'r manteision yn sydyn.**

## 3 Map llwybrau lleihau carbon - cyflwyniad

**Ers 2008-09 mae Comisiwn y Cynulliad wedi llwyddo i gael gostyngiad o 34% mewn allyriadau ynni yn erbyn y targed heriol o ostyngiad o 40% erbyn 2015. . Mae hyn yn dangos perfformiad ardderchog o'i gymharu â gweddill y sector cyhoeddus yng Nghymru.**
**Er mwyn cynnal y momentwm hwn a nodi meysydd lle dylid canolbwyntio ar weithgarwch yn y blynyddoedd sydd i ddod, darparwyd cymorth technegol ac arbenigol gan Arup a'r Ymddiriedolaeth Garbon. Cafodd llwybr lleihau carbon newydd ei ddatblygu a fyddai, os caiff ei weithredu, yn galluogi'r Comisiwn i gyflawni gostyngiad pellach o 30% (ar linell sylfaen 2012-13) mewn allyriadau erbyn 2021. Roedd y llwybr arfaethedig yn cynnwys:**

- **Camau gweithredu a fyddai'n galluogi'r Comisiwn i barhau â'i raglen lwyddiannus o leihau allyriadau ynni;**
- **Sail ar gyfer datblygu Strategaeth Rheoli Carbon newydd a fyddai ar waith o 2015 ac a fyddai'n cynnwys ystod o dargedau eraill gan gynnwys gwastraff, dŵr a theithio;**
- **Dadansoddiad manwl o'r defnydd o ynni ac allyriadau a oedd yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer datblygu cynllun heriol ond cyraeddadwy i yrru allyriadau ynni i lawr ymhellach tra'i fod yn sicrhau amgylchedd gwaith cyfforddus i bawb;**

**- Cymhennu da a phrosiectau Buddsoddi i Arbed sy'n canolbwyntio ar effeithlonrwydd a gwell technoleg. Byddai llawer ohonynt yn rhoi ad-daliad ar unwaith, gydag uchafswm o ad-daliad 8.5 mlynedd i eraill;**
**- Dadansoddiad manwl o'r arbedion ariannol i'w hennill o ganlyniad i'r ymyriadau effeithlonrwydd ynni.**

**Er bod y defnydd o dechnolegau adnewyddadwy wedi cael eu hymchwilio, roedd yr ad-daliad amcangyfrifedig o fwy na deng mlynedd yn golygu nad oedd hyn yn opsiwn ymarferol ar hyn o bryd. Argymhellwyd y dylid gwneud dadansoddiad pellach yn y maes hwn ar yr adeg briodol.**

**Cymeradwyodd y Comisiynwyr y Llwybr, a fyddai'n cael ei roi ar waith o fewn y cyllidebau cynaliadwyedd a phrosiect sydd eisoes yn bodoli. Roedd llawer o'r camau gweithredu a nodwyd yn gysylltiedig â'r angen i brynu offer newydd yn lle'r offer sydd wedi cyrraedd diwedd ei oes weithredol, gan roi cyfle i gael offer newydd sy'n fwy effeithlon a chynaliadwy.**

## 4 Unrhyw Fusnes Arall

**Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 7 Gorffennaf. Bydd y Comisiwn yn ystyried Adroddiad Blynyddol Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Comisiwn y Cynulliad a Strategaeth y Gyllideb ar gyfer 2015-16. .**
**Yr Ysgrifenyddiaeth**
**Mehefin 2014**

Eitem 4

Comisiwn y Cynulliad
Assembly Commission

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**AC(4)2014(10) Papur 4**
**Dyddiad:** 7 Gorffennaf 2014
**Amser:** 14:00-15:30
**Lleoliad:** Swyddfa'r Llywydd

**Enw'r awdur a rhif cyswllt: Claire Clancy, estyniad 8233**

# Adroddiad Uchafbwyntiau i'r Comisiwn

## Cynnwys


Adroddiad Uchafbwyntiau i'r Comisiwn ........ 3
1.0 Cyflwyniad ........ 3
A. Nod strategol – darparu cefnogaeth seneddol o'r radd flaenaf ........ 3
2.0 Dylanwadu a pharatoi ar gyfer newid cyfansoddiadol ........ 3
3.0 Cefnogi'r Pwyllgorau ........ 4
4.0 Bwrdd Taliadau ........ 6
5.0 Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu ........ 7
6.0 Cyfieithu peirianyddol ........ 8
7.0 Datblygiad Proffesiynol Parhaus ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth ........ 8
8.0 Ymgysylltiad a gwaith y Cynulliad ar faterion yr UE ........ 9
B. Nod strategol – ymgysylltu â phobl Cymru a hyrwyddo Cymru ........ 13
9.0 Gweithio mewn Partneriaeth ........ 13
10.0 Ymgysylltu â phobl ifanc ........ 13
11.0 Sylw i fusnes y Cynulliad yn y cyfryngau ........ 14
12.0 Hyrwyddo Cymru yn rhyngwladol ........ 15
C. Nod strategol – defnyddio adnoddau'n ddoeth ........ 17
13.0 Materion staff ........ 17
14.0 Cydraddoldeb a hygyrchedd ........ 17
15.0 Digwyddiadau ar Ystâd y Cynulliad ........ 19
16.0 Mentrau cynaliadwyedd ........ 19
Ch. Y wybodaeth ddiweddaraf am Faterion Ariannol ........ 21
17.0 Cyllideb 2013-14 ........ 21
18.0 Sefyllfa Ariannol 2014-15 ........ 21

D. Rhyddid Gwybodaeth ........................................................................22
19.0 Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth ar gyfer y cyfnod Ebrill–Mehefin 2014 ........................................................................22

Gorffennaf 2014

# Adroddiad Uchafbwyntiau i'r Comisiwn

## 1.0 Cyflwyniad

1.1 Mae'r adroddiad uchafbwyntiau yn crynhoi'r gwaith sydd wedi'i wneud yn ddiweddar, neu sy'n mynd rhagddo, i wneud cynnydd tuag at gyflawni nodau strategol y Comisiwn. Nod yr adroddiad yw rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i'r Comisiynwyr, er mwyn iddynt allu cyflawni eu swyddogaethau o ran goruchwylio a dwyn y rheolwyr i gyfrif. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am weithgareddau a phrosiectau allweddol ers mis Ebrill 2014.

# A. Nod strategol – darparu cefnogaeth seneddol o'r radd flaenaf

## 2.0 Dylanwadu a pharatoi ar gyfer newid cyfansoddiadol

2.1 Mae Bil Cymru wedi parhau ar ei daith drwy Senedd y DU. Yn dilyn tystiolaeth y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Cyllid ar y Bil drafft ym mis Ionawr 2014, yr ydym wedi cael trafodaethau rheolaidd gyda Llywodraeth Cymru a Swyddfa Cymru er mwyn sicrhau eu bod yn deall barn y Cynulliad a sicrhau ymateb i'r farn honno lle y bo'n bosibl. Rydym hefyd yn ystyried goblygiadau argymhellion wrth iddynt gael eu cyflwyno gan Lywodraeth y DU a'r Wrthblaid.

2.2 Cafodd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (Memorandwm) ynghylch Bil Cymru ei osod ar 1 Mai, 2014, a chafodd ei gyfeirio gan y Pwyllgor Busnes i'w ystyried gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol a'r Pwyllgor Cyllid. Yn dilyn adroddiadau'r Pwyllgorau, cafodd y Memorandwm ei ystyried yn y Cyfarfod Llawn ar 1 Gorffennaf 2014.

2.3 Yn amodol ar gael ei ystyried gan y Senedd, bydd Deddf Cymru yn galluogi nifer o ddarnau o ddeddfwriaeth Cymru i gael eu dwyn ymlaen. Er enghraifft, bydd y Ddeddf yn cynnwys datganoli rheolaeth ddeddfwriaethol dros weithdrefnau cyllidebol y Cynulliad. Er mwyn sicrhau bod prosesau cyllidebol effeithiol yn cael eu rhoi ar waith, mae'r Pwyllgor Cyllid wrthi'n cynnal ymchwiliad ar hyn o bryd i'r "Arfer

Gorau mewn Prosesau Cyllidebol". Mae'r maes gwaith hwn, gan gynnwys deddfwriaeth gysylltiedig Gymreig, yn debygol o roi pwysau ar y Pwyllgor Cyllid a'n hadnoddau staffio yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf.

2.4 Mae gwaith yn mynd rhagddo i asesu effaith bosibl argymhellion sy'n deillio o ail adroddiad Comisiwn Silk.

## 3.0 Cefnogi'r Pwyllgorau

Y Rhaglen Ddeddfwriaethol

3.1 Mae llwyth gwaith deddfwriaethol y Cynulliad yn cynyddu a rhagwelir y bydd yn drwm ar gyfer gweddill y Cynulliad hwn. Mae'r Pwyllgor Busnes, yn ogystal â'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, yn edrych yn ofalus ar ein dull o wneud deddfau yn y Pedwerydd Cynulliad.

3.2 Dyma'r Biliau cyfredol:

| **Teitl byr** | **Yr Aelod sy'n Gyfrifol:** | **Statws** |
|---|---|---|
| Y Bil Sector Amaethyddol (Cymru) | Alun Davies | - Yn aros am ddyfarniad y Goruchaf Lys 9 Gorffennaf. |
| Y Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru) | Mick Antoniw | - Yn aros am ddyfarniad y Goruchaf Lys. |
| Y Bil Addysg Uwch (Cymru) | Huw Lewis | - Disgwylir i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad ar yr egwyddorion cyffredinol erbyn 3 Hydref 2014.<br>- Dylid cwblhau trafodion Cyfnod 2 erbyn 28 Tachwedd 2014, ar yr amod bod y Cynulliad yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil. |
| Y Bil Tai (Cymru) | Carl Sargeant | - Trafodaeth Cyfnod 4 yn y Cyfarfod Llawn wedi'i threfnu ar gyfer 8 Gorffennaf. |
| Y Bil Safleoedd Carafannau Gwyliau (Cymru) | Darren Millar | - Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol i gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad ar yr egwyddorion cyffredinol erbyn 24 Hydref 2014.<br>- Trafodion Cyfnod 2 i'w cwblhau erbyn 6 Chwefror 2015, cyhyd ag y bo'r |

| | | |
|---|---|---|
| | | Cynulliad yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil. |
| Y Bil Trais ar sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) | Lesley Griffiths | - Cyflwynwyd ar 30 Mehefin. |
| Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) | Jeff Cuthbert | - I'w gyflwyno ar 7 Gorffennaf. |
| Y Bil Addysg a Chynhwysiant Ariannol (Cymru) | Bethan Jenkins | - Cyflwynir ar 16 Gorffennaf |

3.3 Fel rhan o'n hymdrechion parhaus i wella'r cymorth a ddarperir i Aelodau ar y broses ddeddfwriaethol, rydym wedi cynhyrchu diagram o'r cyfnodau allweddol (Atodiad A).

<u>Hyrwyddo busnes y Cynulliad drwy gyfryngau cymdeithasol</u>

3.4 Digwyddodd amrywiaeth o bethau am y tro cyntaf yn y Cynulliad yn ystod y cyfnod hwn o ran y cyfryngau cymdeithasol. Cynhyrchwyd fideo i esbonio gwaith y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog ym mis Mai a gwahoddwyd cwestiynau gan y cyhoedd (i'r Aelodau eu hystyried) drwy ddefnyddio hashnod Twitter #gofynprifwein. Dyma'r tro cyntaf hefyd i ni lwytho cynnwys i YouTube a oedd yn cynnig dewis o isdeitlau Cymraeg neu Saesneg o fewn yr un fideo.

3.5 Rydym wedi trydar yn ddwyieithog yn fyw o ystafell pwyllgor yn ystod y sesiwn Rheoli Grantiau CAP gyda Syr Derek Jones ym mis Mehefin. Roedd sylwadau gan Aelodau, y cyhoedd (drwy Twitter) a thystion ar y dull hwn o weithredu yn gadarnhaol ar y cyfan.

3.6 Mae gwerthusiad ar y gweill i sicrhau ein bod yn dysgu oddi wrth y prawf hwn. Yn ystod y sesiwn CAP, cyflawnodd @SeneddPAC dri statws 'Top Tweet' am gynnwys a oedd yn ymgysylltu, yn ôl Twitter. Ar y diwrnod, cyrhaeddwyd dros 28,000, gydag argraff lefel uchaf o 117,357 – sy'n rhyfeddol ar gyfer cyfrif gyda dilyniant cymharol fach. Mae Swyddfa Archwilio Cymru a Llywodraeth Cymru yn awyddus i ddysgu am ein gwaith yn y maes hwn.

3.7 Yn un o'r profion mwyaf unigryw i gael ei wneud yn unrhyw le yn y byd ar y cyfryngau cymdeithasol, rydym wedi cynnal ymgyrch ar Twitter i wahodd cwestiynau i'r Llywydd eu hateb. Mae'r fenter hon yn unigryw oherwydd y bydd y Llywydd yn ateb y cwestiynau yn bersonol ar YouTube.

Cefnogi ymchwiliadau Pwyllgorau

3.8 Mae nifer o weithgareddau ymgysylltu â'r cyhoedd wedi cefnogi gwaith pwyllgorau yn ystod y cyfnod hwn, gan gynnwys:

- cynnal pum grŵp ffocws hyd yma gyda chleifion canser a gofalwyr, ar gyfer yr ymchwiliad i gynnydd ar weithredu Cynllun Cyflawni ar gyfer Canser Llywodraeth Cymru;
- digwyddiad i drafod yr ymchwiliad i argaeledd gwasanaethau bariatrig
- gwe-sgwrs ac arolwg gyda myfyrwyr ar gyfer yr ymchwiliad i sgiliau STEM;
- gweithdai gyda grwpiau cymunedol i drafod a chwblhau arolwg ar yr ymchwiliad i ddeisebau ar ddarparu rhagor o arian ar gyfer gwasanaethau bysiau;
- arolwg ar gyfer yr ymgynghoriad i'r Bil Addysg a Chynhwysiant Ariannol (Cymru); a
- hyd yn hyn, mae dros 1,900 o blant a phobl ifanc wedi cwblhau holiaduron sy'n hwylus i bobl ifanc fel rhan o'r ymchwiliad i ailgylchu.

## 4.0 Bwrdd Taliadau

4.1 Ar hyn o bryd, mae'r Bwrdd Taliadau yn ystyried y pecyn llawn o daliadau ar gyfer Aelodau'r Cynulliad yn y Pumed Cynulliad. Mae hyn yn cynnwys adolygiad o'u cyflogau, eu trefniadau pensiwn a'u lwfansau. Bydd y Bwrdd yn cyhoeddi dau ymgynghoriad cyn bo hir: un ar gynigion manwl ar gyfer cynllun pensiwn newydd i'r Aelodau ac un

arall ar rai newidiadau arfaethedig i faterion sy'n ymwneud â'r trefniadau ar gyfer staff cymorth yr Aelodau.

4.2 Bydd y Bwrdd yn parhau i gyfarfod yn rheolaidd ag Aelodau'r Cynulliad, Arweinwyr y Pleidiau a Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad i glywed safbwyntiau gwleidyddol eang ar bob agwedd ar ei gylch gwaith.

## 5.0 Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

<u>Addasiadau i'r Siambr / Prosiect Cefnogi Busnes y Cyfarfod Llawn</u>

5.1 Mae arolwg o'r Aelodau wedi cael ei gynnal i ganfod yr opsiynau dewisol ar gyfer sut y bydd TGCh yn gweithredu yn y Cyfarfod Llawn. Cafodd y Comisiynwyr adborth ar hwn ar 26 Mehefin. Mae'r canlyniadau'n cael eu hadolygu i bennu cwmpas posibl y newidiadau y gallwn eu gwneud i ddiwallu anghenion yr Aelodau yn y ffordd orau, gan gynnwys unrhyw newidiadau i galedwedd a desgiau yn y Siambr. Ochr yn ochr â hyn, rydym hefyd yn ystyried newid system feddalwedd y Siambr, a fyddai'n ein galluogi i gael gwared ar ein dibyniaeth ar y system Medialon gyfredol a gwella'r swyddogaethau pleidleisio.

<u>Prosiect Trosglwyddo ar gyfer Gwasanaethau yn y Dyfodol</u>

5.2 Mae'r prosiect yn dirwyn i ben. Mae'r tîm yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru ar y gwaith o wahanu'r rhwydweithiau TGCh yn ffurfiol, gyda'r flaenoriaeth ar barhau â gwasanaethau TGCh y Siambr i Weinidogion Cymru. Byddwn yn dyfarnu'r contract i beirianwyr oddi ar y safle cyn bo hir; a fydd yn rhoi cymorth TGCh i Swyddfeydd Etholaethol a gweithwyr cartref. Rydym ar hyn o bryd yn y broses o ddod â holl linellau a chylchedau BT o dan reolaeth y Cynulliad, gan eu bod yn cael eu rheoli gan Atos ar hyn bryd. Mae'r prosiect o fewn y cyfyngiadau amser a'r cyfyngiadau ariannol o hyd a bydd yn parhau tan 31 Gorffennaf 2014, a dyna pryd y daw'r holl drefniadau contract ag Atos i ben.

Senedd.tv a Gwefan y Cynulliad

5.3 Mae'r prosiectau i ailwampio gwefannau'r Cynulliad yn datblygu'n dda. Mae'r safle Senedd.tv newydd ar fin cael ei gwblhau - bydd y safle yn galluogi defnyddwyr i wylio, oedi ac ail-chwarae darllediadau byw, ac yn caniatáu i ddefnyddwyr ddewis clipiau o gyfarfodydd y gellir eu rhannu neu eu hymgorffori ar eu gwefannau eu hunain. Mae ganddo hefyd gysylltiadau agosach â Chofnod y Trafodion, ac adran 'Mwy o'r Senedd' sy'n cynnwys digwyddiadau, datganiadau i'r wasg, fideos esboniadol a fideos sy'n gysylltiedig ag ymgynghoriadau ac ymchwiliadau. Caiff ei ryddhau ym mis Medi, yn dilyn profion helaeth dros yr haf.

5.4 Mae'r llwyfan Sharepoint newydd ar gyfer cynulliadcymru.org yn cael ei brofi ar hyn o bryd, ac mae dros 12,000 o dudalennau a 100,000 o ddogfennau wedi cael eu mudo'n llwyddiannus o'r safle presennol. Er y bydd y dyluniad yn debyg, bydd y safle newydd yn llawer mwy 'hwylus i ddyfeisiadau symudol', gyda gwell swyddogaethau chwilio. I gyd-fynd â defnyddio'r llwyfan newydd ar y we, bydd y Cynulliad yn newid ei enw parth ar y we a'r ôl-ddodiad ar ei gyfeiriadau e-bost i cynulliad.cymru ac assembly.wales yn gynnar ym mis Hydref.

## 6.0 Cyfieithu peirianyddol

6.1 Rydym yn parhau i weithio gyda Microsoft Research i ddatblygu ansawdd y system cyfieithu i'r Gymraeg. Byddwn yn adolygu'r Canllawiau ar gyfer defnyddio cyfieithu peirianyddol yng ngoleuni adborth gan Aelodau a staff.

6.2 Mae gwaith yn parhau o ran adolygu prosesau cyfieithu a gwerthuso effaith y system cyfieithu peirianyddol ar gapasiti'r tîm cyfieithu. Ein nod yw gorffen y gwaith yn nhymor yr hydref pan fyddwn yn darparu diweddariad pellach i'r Comisiwn.

## 7.0 Datblygiad Proffesiynol Parhaus ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth

7.1 Ers mis Ebrill 2014 mae pobl wedi cymryd mantais o ystod eang o gyfleoedd hyfforddi a datblygu. Yn ystod chwarter cyntaf 2014-15,

cymerodd 25 o Aelodau'r Cynulliad ran mewn rhyw fath o weithgaredd datblygu proffesiynol parhaus. Manteisiodd yr Aelodau ar gyfanswm o 68 o gyfleoedd DPP rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2014.

7.2 Yn ystod yr un cyfnod, manteisiodd cyfanswm o 68 o staff cymorth ar 141 o gyfleoedd DPP. Roedd y gweithgareddau'n cynnwys:

- Craffu Ariannol
- Datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer cadeiryddion pwyllgorau
- Gwersi Cymraeg
- Hyfforddiant rheoli ac arwain
- Taliad Annibyniaeth Bersonol
- Cyrsiau Addysg Bellach ac Uwch
- Hyfforddiant recriwtio ar gyfer rheolwyr swyddfa
- Cyfryngau Cymdeithasol
- Cymorth cyntaf yn y gwaith
- Rhaglen Gynefino

## 8.0 Ymgysylltiad a gwaith y Cynulliad ar faterion yr UE

Gweithgareddau Aelodau Pwyllgor y Rhanbarthau a chyfranogiad Aelodau'r Cynulliad mewn cynadleddau'r UE

8.1 Mae Mick Antoniw AC wedi chwarae rhan weithredol wrth i Bwyllgor y Rhanbarthau ymateb i'r argyfwng yn Wcráin. Cafodd gyfarfod dwyochrog gyda Dirprwy Is-Brif Weinidog Wcráin ym mis Ebrill, a siaradodd ar ran ei grŵp gwleidyddol yn ystod dadl â'r Is-brif Weinidogion yng Nghyfarfod Llawn Pwyllgor y Rhanbarthau ym Mrwsel. Ymwelodd ag Wcráin rhwng 2 a 4 Gorffennaf fel rhan o ddirprwyaeth wleidyddol ar lefel uchel o Bwyllgor y Rhanbarthau, a chyfarfu â Phrif Weinidog Wcráin.

8.2 Ar 12 Mehefin, yn rhinwedd ei swydd fel cynrychiolydd Cymru yng Nghyngres Awdurdodau Lleol a Rhanbarthol Cyngor Ewrop, siaradodd Joyce Watson AC mewn cynhadledd a drefnwyd gan y Gyngres yn Strasbwrg ar brofiadau Cymru o ran ymgysylltu â phobl ifanc a dinasyddiaeth, gyda Tricia Jones o'r Ddraig Ffynci.

8.3 Siaradodd Rhodri Glyn Thomas AC mewn dwy sesiwn banel mewn cynhadledd ar Lywodraethu Economaidd yr UE a datganoli cyllidol a drefnwyd gan Bwyllgor y Rhanbarthau ym Mrwsel ar 24 Mehefin.

8.4 Bu David Melding AC, y Dirprwy Lywydd, yn cadeirio sesiwn banel ar graffu ar lywodraethau rhanbarthol ar 2 Gorffennaf, mewn cynhadledd o Bwyllgor y Rhanbarthau ym Mrwsel yn ymwneud â chryfhau rôl seneddau rhanbarthol yn yr UE, wedi'i chyd-drefnu gan Brifysgol Tuebingen a Phwyllgor y Rhanbarthau.

<u>CALRE (rhwydwaith yr UE o deddfwrfeydd rhanbarthol)</u>

8.5 Bu'r Llywydd, y Fonesig Rosemary Butler AC, yn ail Bwyllgor Sefydlog 2014 CALRE ym Mrwsel ar 20 Mehefin, a thynnodd sylw at yr angen am Weithgor Cydraddoldeb Rhyw i gael ei ail-sefydlu gan CALRE yn 2015, gan dynnu sylw at waith y Cynulliad ar Fenywod mewn Bywyd Cyhoeddus. Bu Peter Black AC mewn gweithgor e-ddemocratiaeth CALRE yn Seville yn ystod mis Mehefin.

<u>Cysylltiadau/gwaith gyda deddfwrfeydd y DU ar faterion yr UE</u>

8.6 Ar 9 Mehefin bu David Melding AC, y Dirprwy Lywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn Fforwm y CE-DU yn Nhŷ'r Cyffredin. Cyfarfod anffurfiol rheolaidd o Gadeiryddion Pwyllgorau Ewropeaidd (a phwyllgorau sy'n cyfateb i hynny) yn y DU a'r deddfwrfeydd cysylltiedig yw hwn.

<u>Gwaith yn ymwneud â'r UE yn y Pwyllgorau</u>

8.7 Ar 15 Mai, cyfarfu'r Llywydd, cadeiryddion y pwyllgorau a chynrychiolwyr Pwyllgor y Rhanbarthau â'i Ardderchogrwydd Mr Konstantinos Bikas, Llysgennad Gwlad Groeg i'r DU, i drafod Llywyddiaeth Gwlad Groeg o'r UE. Gyda'i gilydd, cynhaliodd y Cynulliad a Llysgennad Groeg a Swyddfa'r Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru, dderbyniad yr UE i nodi Diwrnod Ewrop.

8.8 Ar 4 Mehefin, roedd dadl yn y Cyfarfod Llawn ar adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ac ymateb Llywodraeth

Cymru i'w ymchwiliad i rôl Cymru yn y broses o wneud penderfyniadau yn yr UE.

8.9 Ym mis Mehefin, cyflwynodd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ymateb i alwad Llywodraeth y DU i'r alwad am dystiolaeth ar sybsidiaredd a chymesuredd, sy'n rhan o Adolygiad Cydbwysedd Cymwyseddau o gymwyseddau yr UE a'r DU a lansiwyd yn ystod haf 2012. Tynnodd yr ymateb sylw at y diffyg ystyriaeth yn nadansoddiad Llywodraeth y DU o rôl deddfwrfeydd datganoledig wrth fonitro sybsidiaredd. Roedd yn tynnu sylw at brofiadau'r Cynulliad o Weithdrefn Barn Resymegol yr UE ar sybsidiaredd, gan gynnwys y berthynas gadarnhaol â Senedd y DU yn hyn.

8.10 Ar 30 Mehefin ystyriodd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ddeddfwriaeth ddrafft yr UE i gyflwyno gwaharddiad ar nofrwydi, a chytunodd i godi pryderon ynghylch cymesuredd y ddeddfwriaeth arfaethedig gyda'r Pwyllgor. Mae'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd wedi ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i geisio eglurhad ynghylch ei barn ar y cynigion drafft. Mae'n debygol o holi'r Gweinidog am hyn yn ei sesiwn yn Sioe Frenhinol Cymru ym mis Gorffennaf.

8.11 Ar 9 Gorffennaf, bydd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd yn cael briffiau technegol gan swyddogion Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn Ewropeaidd ar ddeddfwriaeth ddrafft yr UE a fydd yn caniatáu i Aelod-wladwriaethau wahardd cnydau GMO awdurdodedig ar gyfer eu trin ar lefel yr UE.

8.12 Cytunodd y Pwyllgor Menter a Busnes ar ei adroddiad ar Gyfleoedd Cyllido'r UE 2014-2020 a chaiff ei gyhoeddi yng Nghanolfan Gelfyddydau Chapter, Caerdydd ar 16 Gorffennaf.

8.13 Cynhaliwyd sesiynau Diweddariad yr UE gyda'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc a'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ym mis Rhagfyr, gyda gwaith dilynol yn cael ei wneud i gwmpasu ymweliadau posibl â'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc) a Brwsel yn ystod 2014 a 2015 ar flaenoriaethau gwaith penodol y Pwyllgorau hyn.

Allbynnau rhagweithiol yr UE

8.14 Mae'r Gwasanaeth Ymchwil a Swyddfa'r UE wedi cynhyrchu ystod o gyhoeddiadau rhagweithiol i gefnogi gwaith yr Aelodau ar faterion yr UE. Mae'r rhain yn cynnwys Diweddariad Wythnosol yr UE, Materion Ewrop (a gyhoeddwyd ar 9 Mai), y ffrwd twitter @SeneddEurope, a Diweddariadau Polisi'r UE a blogiau ar gynigion deddfwriaethol drafft, gan gynnwys rheoleiddio nofrwydi, y gwaharddiad ar daflu pysgod yn ôl i'r môr (o dan y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin), gwahardd tyfu cnydau GMO, ffermio organig, adolygu'r amgylchedd morol, rhywogaethau ymledol estron ac etholiadau Senedd Ewrop.

Mathau eraill o waith sy'n ymwneud â'r UE

8.15 Bu Shan Morgan, Dirprwy Lysgennad y DU i'r UE ym Mrwsel ar ymweliad â'r Cynulliad ar 3 Gorffennaf i gwrdd â'r Dirprwy Lywydd a nifer o Aelodau'r Cynulliad i drafod datblygiadau ar lefel yr UE sydd fwyaf perthnasol i Gymru, gan gynnwys yr etholiadau diweddar i Senedd Ewrop a phenodiadau i'r swyddi uchaf yn sefydliadau'r UE. Bu Shan ar ymweliad tebyg â'r Cynulliad fis Gorffennaf diwethaf.

Profiad gwaith Swyddfa'r UE

8.16 Mae Osian McGuinness yn fyfyriwr 17-mlwydd oedd o'r Wyddgrug, sy'n astudio Bagloriaeth Cymru, a threuliodd dri diwrnod ar ddiwedd mis Mehefin yn Swyddfa'r UE ym Mrwsel ar brofiad gwaith, i ddysgu am waith y Cynulliad ym Mrwsel.

# B. Nod strategol – ymgysylltu â phobl Cymru a hyrwyddo Cymru

## 9.0 Gweithio mewn Partneriaeth

9.1 Rhwng mis Mawrth a mis Mehefin, rydym wedi gweithio gyda'r sefydliadau canlynol i godi ymwybyddiaeth a rhannu gwybodaeth am y Cynulliad a'i waith:

- Digartref Ynys Môn
- Menywod yn Gwneud Gwahaniaeth
- Plant yng Nghymru
- Probus Menywod Crughywel
- Grwpiau Cymunedau yn Gyntaf
- TPAS Cymru
- U3A
- Cyngor Ffoaduriaid Cymru
- Chwarae Teg

9.2 Cafodd gweithdy gwybodaeth ac ymwybyddiaeth y sector busnes ei drefnu yn y Cynulliad ym mis Mehefin ar gyfer cynrychiolwyr busnes a gafodd y cyfle i gwrdd ag Aelodau'r Pwyllgor Menter a Busnes.

## 10.0 Ymgysylltu â phobl ifanc

10.1 Ar 16 Gorffennaf, bydd pobl ifanc yn cymryd rhan mewn digwyddiad i arddangos y gwaith ymgysylltu rhagorol â phobl ifanc a wnaed eisoes gan y Cynulliad a chyflwyno ein gweledigaeth ar gyfer gwella gwasanaethau ymgysylltu â phobl ifanc dros gyfnod o amser. Bydd digwyddiad Hawl i Holi yn cael ei gynnal yn y bore gyda phobl ifanc o ysgolion ledled Cymru, a bydd yn cael ei arwain gan Nick Servini o BBC Cymru. Amser cinio, bydd pobl ifanc o grwpiau ieuenctid a fu'n cymryd rhan yn yr holiadur ymgysylltu â phobl ifanc yr hydref diwethaf, ynghyd â Chomisiynydd Plant Cymru, yn ymuno â grwpiau ysgol yn y Senedd. Bydd y digwyddiad amser cinio yn cynnwys ffair addysg lle y gall pobl ifanc ddysgu sut i gymryd rhan yn y ddadl.

10.2 Fel rhan o'r digwyddiad, gofynnir i Arweinwyr y Pleidiau lofnodi Siarter Pobl Ifanc i ddangos eu hymrwymiad i bobl ifanc, bod y Cynulliad yn estyn allan atynt ac y bydd yn cymryd eu barn o ddifrif. Bydd y Llywydd yn gwneud datganiad yn y Cyfarfod Llawn yn croesawu'r Siarter ac yn amlinellu ymrwymiad y Cynulliad i ymgysylltu â phobl ifanc. Bydd Arweinwyr y Pleidiau hefyd yn cael y cyfle i siarad y pryd hwnnw.

Allgymorth

10.3 Ers y Pasg, rydym wedi cyflwyno cyfleoedd dysgu i 79 o grwpiau, 2,599 o ddisgyblion. Yn ystod y pythefnos a oedd yn nodi 15 mlynedd o ddatganoli, casglwyd syniadau gan 22 o ysgolion am yr hyn y byddent yn ei newid ar gyfer Cymru yn y 15 mlynedd nesaf, a byddwn yn rhannu hyn gyda'r Aelodau cyn bo hir. Ym mis Gorffennaf bydd wythnos o weithgareddau yn cael ei threfnu ar gyfer myfyrwyr Bagloriaeth Cymru ym Mhrifysgol Aberystwyth, ar y cyd â'r Adran Wleidyddiaeth a Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

10.4 Ar 14 a 15 Mehefin bu'r bws yng Ngwersyll Sgowtiaid Cymru Gyfan yn Llanfair-ym-Muallt i ymgysylltu â phlant a phobl ifanc o bob cwr o'r wlad. Cawsom dros 1000 o ymwelwyr â'r bws yn ystod y penwythnos a chwblhawyd dros 700 o holiaduron yn seiliedig ar Ymchwiliad Ailgylchu'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd.

**11.0 Sylw i fusnes y Cynulliad yn y cyfryngau**

11.1 Mae pwyllgorau'r Cynulliad wedi denu llawer iawn o sylw yn y cyfryngau dros y tri mis diwethaf gyda chryn sylw yn cael ei roi i nifer o adroddiadau.

Uchafbwyntiau mis Ebrill

11.2 Cafodd adroddiad gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar ofal heb ei drefnu yn y GIG lawer iawn o sylw, gan gynnwys ar Newyddion BBC Cymru, ITV Cymru/Wales a'r Western Mail / Walesonline.

Uchafbwyntiau mis Mai

11.3 Cafodd yr adroddiad ar Gyllid Cymru gan y Pwyllgor Cyllid sylw gan nifer o ddarparwyr, gan gynnwys BBC Cymru a'r Western Mail / Walesonline a oedd yn cynnwys darn barn dilynol hefyd. Yr hyn oedd yn galonogol oedd bod yr adroddiad hefyd yn cwmpasu rhai teitlau mwy arbenigol, gan gynnwys Swansea Business Life ac Insider Media.

11.4 Roedd adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar wasanaethau bariatrig yng Nghymru wedi denu diddordeb sylweddol gan gynnwys arNewyddion BBC Cymru, Western Mail, Daily Post, South Wales Evening Post ac ITV Cymru / Wales. Cafwyd rhagor o ddiddordeb o deitlau arbenigol, gan gynnwys Coleg Brenhinol y Llawfeddygon, y Sector Cyhoeddus a'r Sector Iechyd. Daeth sylw darlledu hefyd gan, ymhlith eraill, Radio Wales a Sain Abertawe / The Wave.

11.5 Ac ym mis Mehefin, er y bu llai o adroddiadau pwyllgorau, roedd y sylw'n parhau ar gyfer sesiynau tystiolaeth ac ymchwiliadau newydd. Yn benodol, mae ymgynghoriad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar ailgylchu yng Nghymru wedi creu diddordeb mawr ymhlith y wasg leol gan gynnwys y South Wales Evening Post, Penarth Times, South Wales Argus ac Ymgyrch Caerffili.

## 12.0 Hyrwyddo Cymru yn rhyngwladol

12.1 Cangen Cynulliad Cenedlaethol Cymru o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad oedd yn croesawu Cynhadledd Rhanbarth Ynysoedd Prydain a Môr y Canoldir (BIMR) yn ystâd y Cynulliad rhwng 27 a 29 Mai 2014.

12.2 Roedd y Gynhadledd yn llwyddiant mawr ac yn llwyfan ar gyfer sicrhau bod y Cynulliad yn cael ei weld fel deddfwrfa ryngwladol amlwg, arloesol a blaengar. Roedd yn gyrchfan i dros 50 o gynrychiolwyr o 15 o ddeddfwrfeydd o'r DU ac yn rhyngwladol, gan gynnwys sylwedyddion rhyngwladol o Awstralia, Canada ac Ynysoedd y Caribï.

12.3 Drwy Gynhadledd y BIMR cawsom gyfle i *fanteisio'n llawn ar ein hystâd* gyda'r gynhadledd yn digwydd dros gyfnod o dri diwrnod yn y Senedd, y Pierhead a Siambr Hywel. Roedd hefyd yn torri tir newydd

ar gyfer y Senedd mewn dwy ffordd – cynnal cynhadledd ryngwladol yn y Siambr ynghyd â chinio Gala ysblennydd yn y Neuadd.

12.4 Roedd y gynhadledd yn gyfle i'r Cynulliad drafod ac arddangos ein gwaith yn y meysydd a ganlyn:

- record gadarnhaol y Cynulliad o ran Menywod mewn Democratiaeth ac Ymgyrch y Llywydd ar gyfer Menywod mewn Bywyd Cyhoeddus;

- y Cynulliad fel deddfwrfa cwbl ddwyieithog, ein Deddf Ieithoedd Swyddogol a Chyfieithu Peirianyddol; a

- Gwasanaeth Addysg y Cynulliad a'r ffyrdd yr ydym yn Ymgysylltu â Dinasyddion Ifanc.

12.5 Mae'r adborth a gafwyd gan y cynrychiolwyr niferus a gymerodd ran yn y gynhadledd wedi bod yn eithriadol o gadarnhaol. Mae'r rhain yn cynnwys llongyfarch Cangen Cymru o'r CPA am drefnu "*cynhadledd gyfeillgar, effeithlon, pleserus a defnyddiol*," a disgrifiodd Prif Weithredwr y BIMR ein cynhadledd fel "*cynhadledd arloesol, newydd a'r gynhadledd ... gynhesaf rwyf wedi bod ynddi yn y CPA BIMR – mae Tîm Cymru o'r CPA wedi gosod meincnod uchel iawn*"

12.6 Bydd adroddiad llawn o'r gynhadledd yn cael ei gynhyrchu dros doriad yr haf a bydd gwefan BIMR2014 cael ei diweddaru a'i chynnal ar wefan y Cynulliad fel gwaddol gadarnhaol o'r gynhadledd.

12.7 Yn ogysal â'r gynhadledd BIMR, rhestrir y prif ddigwyddiadau ac ymweliadau rhyngwladol, gan gynnwys ymweliadau diplomyddol, yn Atodiad B.

# C. Nod strategol – defnyddio adnoddau'n ddoeth

## 13.0 Materion staff

Cynllun Prentisiaeth 2013-14

13.1 Ers i'n chwe phrentis newydd ymuno â'r Cynulliad ym mis Chwefror 2014, maent wedi bod yn treulio eu hamser yn gweithio ochr yn ochr â staff y Comisiwn ac wedi dechrau NVQ lefel 2 mewn Gweinyddu Busnes. Mae'r prentisiaid hefyd wedi manteisio ar y cyfleoedd dysgu a datblygu o fewn y Comisiwn ac wedi cymryd rhan mewn nifer o weithgareddau dysgu, gan gynnwys gwersi Cymraeg, mentora a sesiynau hyfforddi, cyfleoedd am secondiadau a chysgodi a nifer o gyrsiau hyfforddi. Ar hyn o bryd, mae'r prentisiaid yn cofnodi eu profiad dysgu ar ffurf fideo, mewn cydweithrediad â'r tîm Darlledu, er mwyn hyrwyddo prentisiaethau ledled Cymru.

## 14.0 Cydraddoldeb a hygyrchedd

14.1 Rydym wedi cynhyrchu ein Hadroddiad Cydraddoldeb Blynyddol ar gyfer 2013-2014. Mae'r Adroddiad yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am ein blaenoriaethau, cyhoeddi a dadansoddi data monitro a recriwtio staff a Dadansoddiad o Gyflog Cyfartal. Nid oedd y Dadansoddiad o Gyflog Cyfartal yn nodi unrhyw feysydd o bryder mewn perthynas â gwahaniaethau o ran tâl. Caiff yr adroddiad ei gyhoeddi cyn toriad yr haf.

Cydnabyddiaeth allanol

14.2 Mae Comisiwn y Cynulliad wedi cael nifer o wobrau sy'n dangos ein hymrwymiad i gefnogi ein staff yn llawn a meithrin amgylchedd gwaith cynhwysol:

- **Safon Aur Buddsoddwyr mewn Pobl** – y gydnabyddiaeth uchaf o'n hymrwymiad i'n staff.
- y cyflogwr gorau ar gyfer **teuluoedd sy'n gweithio**.
- **Rhestr *The Times* o'r 50 cyflogwr gorau ar gyfer menywod**.

- **Nod Siarter Action on Hearing Loss,** sy'n dangos ein hymrwymiad i gwrdd ag anghenion staff a defnyddwyr gwasanaethau sy'n fyddar neu sydd â nam ar y clyw.
- Cyflogwr Gorau Cymru o ran bod yn gefnogol i bobl hoyw, a rhif 11 ym **Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall UK 2014**. Mae ein rhwydwaith staff LGBT hefyd wedi cael ei gydnabod fel rhwydwaith Perfformiwr â Seren.

Digwyddiadau a Gweithgareddau

14.3 Rydym wedi hyrwyddo ac wedi dathlu amrywiaeth o ddigwyddiadau cydraddoldeb gan gynnwys Diwrnod Rhyngwladol yn Erbyn Homoffobia a Thrawsffobia; Mis Hanes Sipsiwn, Roma, Teithwyr, Mis Hanes Pobl Dduon; Diwrnod Rhyngwladol Pobl Anabl; Mis Hanes Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol; a Diwrnod Rhyngwladol y Menywod.

14.4 Yn ogystal â darparu fersiwn ag is-deitlau o'r sesiwn Cwestiynau i'r Prif Weinidog, rydym hefyd wedi gweithio gydag S4C i gynnal peilot o ddarpariaeth Iaith Arwyddion Prydain (BSL) ar gyfer sesiwn Cwestiynau'r Prif Weinidog. O fis Medi 2014, bydd yr holl sesiynau'n cael eu harchifo ac ar gael o fewn 24 awr ar ein sianel YouTube gydag is-deitlau a dehongliad Iaith Arwyddion Prydain.

14.5 Mewn ymateb i nifer isel y menywod sy'n rhoi tystiolaeth i'r Pwyllgor Menter a Busnes buom yn gweithio gyda Chwarae Teg i ganfod a hyfforddi naw o fenywod i godi eu hyder a chodi ymwybyddiaeth ynghylch rhoi tystiolaeth.

14.6 Rydym yn gweithio gyda Chymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth i gael achrediad fel darparwr gwasanaeth sy'n gyfeillgar i bobl ag awtistiaeth.


Cefnogi staff o grwpiau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig (BME) y Cynulliad a chynyddu cynrychiolaeth Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig yn y gweithlu

14.7 Dechreuodd prosiect naw mis ym mis Mehefin 2014 o dan arweiniad Cydgysylltydd y Cynllun Gweithredu BME, a fydd yn bwrw ymlaen â'n gwaith i annog pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig i wneud cais am

swydd yn y Cynulliad a chefnogi datblygiad ein staff BME. Bwriad y prosiect yw adolygu'r arferion presennol a gwneud y mwyaf o gyfleoedd i gynyddu cynrychiolaeth.

## 15.0 Digwyddiadau ar Ystâd y Cynulliad

15.1 Mae nifer y digwyddiadau ar ystâd y Cynulliad a gaiff eu noddi gan Aelod o'r Cynulliad wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y ddwy flynedd diwethaf, fel y gwelir yn y graff isod, ac mae digwyddiadau yn y dyddiadur hyd at yr etholiad nesaf.




| | Ebrill | Mai | Meh | Gorff | Awst | Medi | Hyd | Tach | Rhag | Ion | Chwef | Maw |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2012/13 | 9 | 20 | 19 | 13 | 0 | 12 | 28 | 35 | 8 | 27 | 19 | 19 |
| 2013/14 | 33 | 40 | 36 | 36 | 4 | 26 | 47 | 47 | 19 | 21 | 34 | 49 |
| 2014/15 | 20 | 34 | 38 | | | | | | | | | |

## 16.0 Mentrau cynaliadwyedd

<u>Datblygu Llwybr Lleihau Carbon</u>

16.1 Mae Comisiwn y Cynulliad wedi sicrhau gostyngiad o 34% mewn allyriadau ynni ers 2008/09, sy'n gyflawniad arwyddocaol ac yn safon ragorol o ran perfformiad o fewn y sector cyhoeddus yng Nghymru. Yn dilyn y gwaith llwyddiannus hwn gyda'r Ymddiriedolaeth Garbon a phartneriaid, cafwyd cefnogaeth dechnegol ac arbenigol bellach gan Arup a'r Ymddiriedolaeth Garbon i ddatblygu Llwybr Lleihau Carbon, er mwyn cynorthwyo ein hamcanion cynaliadwyedd a chyflawniadau hyd yn hyn.

Cytunodd y Comisiwn ar y Llwybr ar 26 Mehefin. Mae'n nodi camau ymarferol y gellir eu cyflawni i leihau allyriadau, cynnal amgylchedd gwaith cyfforddus a rheoli cyllidebau cyfleustodau yn erbyn y duedd o gynnydd blynyddol mewn costau cyfleustodau. Caiff y gwaith ei ariannu o gyllidebau sy'n bodoli eisoes, ac mae llawer ohono'n gysylltiedig â'r gwaith angenrheidiol o adnewyddu offer sydd wedi cyrraedd diwedd ei oes weithredol, gan roi cyfle i gael offer newydd sy'n fwy effeithlon a chynaliadwy. Bydd y Llwybr yn galluogi'r Comisiwn i sicrhau gostyngiad pellach o 30% mewn allyriadau carbon erbyn 2021.

# Ch. Y wybodaeth ddiweddaraf am Faterion Ariannol

## 17.0 Cyllideb 2013-14

17.1 Prif ddangosyddion perfformiad ariannol y Comisiwn yw cyflawni alldro tanwariant o 1% neu lai na'r Gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn, sicrhau £500,000 o arbedion Gwerth am Arian a thalu anfonebau a hawliadau treuliau o fewn deng niwrnod. Rydym wedi cwrdd â'r holl dargedau hyn. Ein tanwariant ar ddiwedd y flwyddyn, yn amodol ar wirio archwiliad terfynol, oedd £34,000 ac felly 0.07% o danwariant ar y gyllideb o £49 miliwn.

17.2 Dechreuodd yr archwiliad blynyddol ar 3 Mehefin 2014, gyda'r cyfrifon terfynol i'w cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ddydd Llun 7 Gorffennaf, 2014, pan yr ydym yn disgwyl cael eu hargymhelliad y gall y Prif Weithredwr lofnodi'r cyfrifon.

## 18.0 Sefyllfa Ariannol 2014-15

18.1 Wrth gymeradwyo Strategaeth y Gyllideb 2015-16, cadarnhaodd y Comisiynwyr y bydd eu dull gweithredu yn parhau i ganolbwyntio ar wella effeithlonrwydd a sicrhau gwerth am arian. Mae'r gyllideb yn darparu cyllid ar gyfer arloesi parhaus ac yn cynnal ymrwymiad parhaus y Comisiwn i ansawdd y gwasanaethau i'r Aelodau a'r cyhoedd. Mae cynlluniau a sefyllfaoedd tymor hwy hefyd yn cael eu hystyried i sicrhau pontio llyfn ar gyfer y Comisiwn nesaf yn 2016.

18.2 Mae gwaith ar y gweill i gytuno ar y ddogfen gyllideb ddrafft ar gyfer 2015-16 cyn diwedd toriad yr haf 2014. Y dyddiad arfaethedig ar gyfer ei gosod yw diwedd mis Medi 2014.


# D. Rhyddid Gwybodaeth

## 19.0 Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth ar gyfer y cyfnod Ebrill-Mehefin 2014

19.1 Mae rhestr o'r wybodaeth a ddatgelwyd ers yr adroddiad diwethaf o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth i'w gweld yn Atodiad C. Mae wedi cael ei chategoreiddio i ddangos pwnc y ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth yn ystod y cyfnod hwnnw. Mae'r rhestr hefyd yn cynnwys manylion am y wybodaeth a gafodd ei dal yn ôl o ganlyniad i eithriadau Rhyddid Gwybodaeth, y rhai sydd wedi cael eu rhyddhau yn rhannol a'r rhai lle nad oes unrhyw wybodaeth yn cael ei chadw.

19.2 Mae'r siart isod yn dangos y 12 cais yn ôl categori. Ni chymhwyswyd unrhyw eithriadau o ran amser a chostau.

**Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth yn ôl categori (Hydref 2013 – Mawrth 2014**



## Atodiad A

### Crynodeb o'r broses ar gyfer craffu ar Filiau Cyhoeddus gan y Cynulliad

Bil yn cael ei gyflwyno gan yr Aelod sy'n Gyfrifol
⇩

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cyfnod 1 Egwyddorion Cyffredinol** | Y Pwyllgor Busnes yn penderfynu a ddylid cyfeirio'r Bil at bwyllgor cyfrifol (A phennu dyddiad cau i'r pwyllgor adrodd yn ôl)<br>⇩Ydy<br>Y pwyllgor cyfrifol yn ymgynghori ac yn clywed tystiolaeth. ⇨<br>Yn cyhoeddi ei Adroddiad Cyfnod 1 | ⇩Nac ydy<br>Y Cynulliad yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil?<br>⇩Ydy<br>**Yn symud ymlaen i Gyfnod 2** | Nac ydy ⇨ **Y Bil yn methu** |
| **Cyfnod 2 Craffu fesul llinell** | Gwelliannau ⇨ | **Ystyriaeth fanwl gan bwyllgor** | |
| **Cyfnod 3 Craffu fesul llinell** | Gwelliannau ⇨ | **Ystyriaeth fanwl gan y Cynulliad** | |
| **Cyfnod 3 pellach (dewisol) Craffu fesul llinell** | Gwelliannau⇨<br>gan yr Aelod sy'n Gyfrifol neu'r Llywodraeth yn unig | **Ystyriaeth fanwl gan y Cynulliad** | |
| **Y Cyfnod Adrodd (dewisol) Craffu fesul llinell** | Gwelliannau ⇨ | **Ystyriaeth fanwl gan y Cynulliad** | |
| **Cyfnod Adrodd Pellach (dewisol) Craffu fesul llinell** | Gwelliannau⇨<br>gan yr Aelod sy'n Gyfrifol neu'r Llywodraeth yn unig | **Ystyriaeth fanwl gan y Cynulliad** | |
| **Cyfnod 4 Dadl ar basio'r Bil** | | **A yw'r Cynulliad yn cytuno ar y cynnig i basio'r Bil?** | Nac ydy ⇨ **Y Bil yn methu** |
| **Y Bil yn dod yn Ddeddf** | | ⇩Ydy<br>**(ac os nad oes unrhyw her gyfreithiol)**<br>Cydsyniad Brenhinol | |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**Atodiad B - Digwyddiadau ac ymweliadau rhyngwladol, gan gynnwys ymweliadau diplomyddol**

| Dyddiad | Manylion |
|---|---|
| 20 Mai | Croesawodd **y Llywydd** ymweliad gan **Lefarydd Senedd Canada yr Anrh. Noël A. Kinsella.** |
| 12-14 Mehefin | Bu **Peter Black AC, Comisiynydd y Cynulliad** yn cynrychioli'r Llywydd yng nghyfarfod Gweithgor **CALRE** (Cynhadledd Cynulliadau Deddfwriaethol Rhanbarthol Ewrop) ar **e-ddemocratiaeth** a gynhaliwyd gan Senedd Andalucía yn Seville, lle y rhoddodd gyflwyniad ar brofiad cadarnhaol y Cynulliad yn y maes hwn. |
| 16 Mehefin | Bu **Joyce Watson AC** yn cynrychioli'r Cynulliad yng nghyfarfod Pwyllgor D y Cynulliad Seneddol Prydeinig-Gwyddelig (sy'n canolbwyntio ar yr Amgylchedd a Materion Cymdeithasol) yn San Steffan, fel rhan o'i ymchwiliad i *boplogaeth Teithwyr a Roma*. |
| 20 Mehefin | Bu'r **Llywydd** ym **Mhwyllgor Sefydlog CALRE** a gynhaliwyd ym Mrwsel |
| 30 Mehefin | Cyfarfu **Pwyllgor C y Cynulliad Seneddol Prydeinig-Gwyddelig** (BIPA) (sy'n canolbwyntio ar Faterion Economaidd ac y mae Lindsay Whittle AC yn eistedd arno) yn y Cynulliad i gymryd tystiolaeth, fel rhan o'i ymchwiliad i *Ddiweithdra ymysg Pobl Ifanc*. |

<u>Ymweliadau diplomyddol</u>

Croesawodd y Llywyddion yr ymweliadau diplomyddol canlynol â Bae Caerdydd hefyd. Yn ystod y cyfarfodydd hyn, rhoddodd y Llywyddion drosolwg o'r Cynulliad a'i waith, a thrafodwyd bwysigrwydd hyrwyddo Cymru a democratiaeth Cymru ar lwyfan y byd a rôl gadarnhaol cysylltiadau diplomyddol wrth gyflawni hyn.

- 8 Mai - Mr Ranjan Mathai, Uchel Gomisiynydd India i'r DU
- 14 Mai - Mr Diego Gómez-Pickering, Llysgennad Mecsico i'r DU
- 15 Mai - Ei Ardderchowgrwydd Mr Konstantinos Bikas, Llysgennad Groeg i'r DU
- 20 Mehefin - Ei Ardderchogrwydd Aloun Ndombet-Assamba, Uchel Gomisiynydd Jamaica i'r DU
- 26 Mehefin - Ei Ardderchowgrwydd Dr Peter Ammon, Llysgennad yr Almaen i'r DU

ATODIAD C

## CEISIADAU RHYDDID GWYBODAETH

Ebrill – Mehefin 2013

Daeth 13 o geisiadau am wybodaeth i law yn ystod y cyfnod Ebrill 2014 – Mehefin 2014. Mae'r categorïau yn ymwneud â natur y cais.

### 1. Gwybodaeth a ryddhawyd yn dilyn ceisiadau rhyddid gwybodaeth



Comisiwn ac Aelodau'r Cynulliad

- Hanes chwilio gwefannau pleidiau gwleidyddol

Comisiwn y Cynulliad

- Y broses ar gyfer ymdrin ag ymholiadau gan y cyhoedd – Pennaeth Cyswllt Cyntaf wnaeth ymdrin â'r cais yn anffurfiol.

### 2. Gwybodaeth a ddaliwyd yn ôl

Comisiwn ac Aelodau'r Cynulliad

- Bwlio a chwynion. **Dibynwyd ar adran 40 (gwybodaeth bersonol).**

Aelodau'r Cynulliad

- Cynnydd yng nghyflog Aelodau'r Cynulliad. **Dibynwyd ar adran 36 (Ymdriniaeth effeithiol o ran materion cyhoeddus).**

Comisiwn y Cynulliad

- Yr effaith ar iechyd neu les drwy fod yn dyst i streiciau newyn. **Dibynwyd ar adran 14 (Cais blinderus).**
- Gohebiaeth gyda phrotestiwr ac aelod o'r cyhoedd. **Dibynwyd ar adran 40.**

**3. Rhyddhau gwybodaeth yn rhannol ond rhywfaint o wybodaeth heb ei chadw neu wedi'i dal yn ôl**



Aelodau'r Cynulliad

- Taliadau bonws, goramser a milltiroedd ar gyfer aelodau o'r teulu a gaiff eu cyflogi fel staff cymorth. **Dibynwyd ar adran 40.**

Comisiwn y Cynulliad

- Costau blynyddol rhedeg 'Cynulliad Cymru' gan gynnwys yr holl gyflogau, treuliau a chostau sefydlog o gymharu â'r rhai ar gyfer y Swyddfa Gymreig cyn datganoli. **Dibynwyd ar adran 21 (Gwybodaeth eisoes ar gael mewn mannau eraill).**

Pwyllgorau a Deddfwriaeth

- Cyllideb Ombwdsmon Cymru. Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. **Dibynwyd ar adran 21 a chyfeirio'r sawl a wnaeth y cais i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.**

**4. Dim gwybodaeth wedi'i chadw**

Aelodau'r Cynulliad

- Gohebiaeth rhwng Aelodau'r Cynulliad ac Aelodau Seneddol dros y 12 mis diwethaf. **Dim gwybodaeth wedi'i chadw**
- Nifer y bobl a gyflogwyd gan Aelodau Llafur Cymru yn y Cynulliad fel Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad drwy raglen Twf Swyddi Cymru. **Dim gwybodaeth wedi'i chadw**

Ystadau/Cyfleusterau

- Asesiad Risg o ran mellt. **Dim gwybodaeth wedi'i chadw**